



Trwy e-bost i ysgolion a cholegau

5 Rhagfyr 2019

Annwyl Gydweithiwr

Goruchwylio cyfres arholiadau TGAU Gaeaf 2019/20

Ysgrifennais atoch cyn arholiadau mis Tachwedd a gobeithio bod unrhyw arholiadau a gyflwynwyd gennych wedi mynd yn dda. Mae'r llythyr hwn yn darparu gwybodaeth am ddata cofrestriadau ar gyfer cyfres mis Tachwedd ac yn amlinellu sut rydym wedi monitro gwaith CBAC yn ystod y gyfres.

Yn sesiwn mis Tachwedd, safwyd mwy na 42,520 o arholiadau. Hyd yn hyn, mae'r gyfres yn dod yn ei blaen yn dda, heb unrhyw adroddiadau o dorri diogelwch na gwallau yn y papur cwestiynau. Hoffwn ddiolch i chi, eich cydweithwyr a'ch myfyrwyr am y rhan y gwnaethoch chi i gyd ei chwarae yn llwyddiant y gyfres.

Arholiadau Tachwedd

Rhoddodd data mynediad dros dro a gasglwyd gan CBAC arwydd cynnar inni o batrymau cofrestru ar gyfer y sesiwn. Defnyddiwyd y data hwn i'n helpu i ddeall unrhyw newidiadau i gofrestriadau, o'u cymharu â'r gyfres flaenorol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod dull cynlluniedig CBAC o ddyfarnu yn arwain at ddyfarniad teg i fyfyrwyr. Bydd hefyd yn bwysig wrth ddehongli'r canlyniadau.

Cyhoeddwyd ystadegau swyddogol ar gofrestriadau mis Tachwedd am 9.30am ddydd lau 5 Rhagfyr 2019. Mae'r ystadegau yn dangos bod :

- 21,260 o gofrestriadau ar gyfer TGAU ym mis Tachwedd, i lawr 1,195 (5.3%) ers mis Tachwedd diwethaf.
- Mae gofrestriadau blwyddyn 11 yn cyfrif am 17,745 o gofrestriadau (83.5% o'r holl gofrestriadau, i fyny o 82.8% o'r holl gofrestriadau fis Tachwedd diwethaf).

Cymwysterau Cymru

Adeilad Ch2, Pencarn Lane
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

- Cafwyd 3,380 o gofrestriadau ym mis Tachwedd ar gyfer TGAU Iaith Saesneg yn 2019, cynnydd o 1.0%. O'r rheini, roedd 1,725 yn fyfyrwyr blwyddyn 11, gostyngiad o'i gymharu â 1,760 fis Tachwedd diwethaf.
- Cafwyd 6,750 o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg, i fyny 30 (0.4%) o fis Tachwedd diwethaf. Cafwyd 10,825 o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg - Rhifedd, i lawr 1,345 (11.0%). Roedd 77.3% o'r cofrestriadau ar gyfer Mathemateg TGAU ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11, o'i gymharu â 97.4% ar gyfer Mathemateg TGAU - Rhifedd.

Am wybodaeth bellach gweler ein datganiad ystadegau swyddogol¹. Mae'r crynodeb tudalen flaen o'r datganiad yn Atodiad A.

Monitro'r gyfres arholiadau

Ar ôl yr arholiadau, mae'r papurau'n cael eu sganio ac yna'n cael eu marcio ar-lein gan arholwyr. Gallwch ddarganfod mwy am y broses [yma](#). Gwnaethom fonitro cynadleddau'r arholwyr lle hyfforddwyd arholwyr i gymhwyso'r cynlluniau marcio yn gywir ac yn gyson. Mae'r marcio wedi hen ddechrau ac rydym yn derbyn diweddariadau cynnydd marcio rheolaidd gan CBAC cyn eu dyfarnu.

Dros y pythefnos i ddod, byddwn yn monitro'r cyfarfodydd dyfarnu ar gyfer y cymwysterau hyn ac yn cyfarfod yn rheolaidd â CBAC i graffu'n ofalus ar y broses ddyfarnu a sicrhau bod y canlyniadau'n deg i fyfyrwyr.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod safonau priodol yn cael eu gosod a'u cynnal dros amser. Rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i CBAC gymhwyso'r dull sefydledig i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal o un gyfres i'r llall. Gellir gweld manylion y dull a ddefnyddir gan CBAC ar gyfer cymwysterau cymeradwy yng Nghymru ar wefan [CBAC](#). Mae uwch arholwyr yn CBAC yn gosod ffiniau gradd gan ddefnyddio gwybodaeth ystadegol ac enghreifftiau o waith myfyrwyr i sefydlu lle y dylid gosod ffiniau gradd allweddol ar gyfer pob cymhwyster. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses gosod graddau hefyd ar ein [gwefan](#).

Cyfres Ionawr

Mae arholiadau ar gael ym mis Ionawr 2020 ar gyfer un uned o Llenyddiaeth Saesneg TGAU ac un uned o Llenyddiaeth Gymraeg TGAU. Mae cyfleoedd hefyd i sefyll arholiadau mewn TGAU TGCh ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwn yn monitro ac yn craffu ar brosesau CBAC yn yr un modd ag ar gyfer arholiadau mis Tachwedd. Gellir cyflwyno cydrannau unigol Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ymlaen llaw i'w cymedroli a'u dyfarnu.

¹ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cyhoeddiadau-ymchwil-ac-ystadegau/?page=1&perpage=10&categories=&sortBy=byDate&fromDate=&toDate=&query=&publicationTypes=>

Cyhoeddi canlyniadau

Cyhoeddir canlyniadau TGAU mis Tachwedd a byddant ar gael i fyfyrwyr ar **Ddydd Iau 16 Ionawr 2020**. Bydd ysgolion a cholegau'n cael y canlyniadau y diwrnod cynt, Dydd Mercher 15 Ionawr 2020.

Bydd myfyrwyr yn cael eu canlyniadau ar gyfer TGAU mis Ionawr ac unedau a gymerir ar **Ddydd Iau 5 Mawrth 2020**. Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau y diwrnod cynt, Dydd Mercher 4 Mawrth 2020.

Anfonir y canlyniadau i ganolfannau'r diwrnod cyn y diwrnod canlyniadau swyddogol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa na ddylid rhannu canlyniadau ag unrhyw berson neu sefydliad y tu allan i'r ganolfan tan ddiwrnod y canlyniadau.

Rhagor o wybodaeth

Parhewch i gysylltu ag adran Arholiadau 360 ar ein gwefan a rhowch wybod i ni os oes unrhyw agweddau ar y system arholiadau y byddai'n ddefnyddiol i ni eu cynnwys. Rydyn ni'n rhoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar TGAU, Safon Uwch a'r cymwysterau eraill rydyn ni'n eu rheoleiddio trwy ein cylchlythyr 'Y Llechen'. Gallwch gofrestru i dderbyn hwn o'n [gwefan](#).

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i chi yn y dyfodol, cysylltwch ag enquiries@qualificationswales.org. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi a hoffwn achub ar y cyfle i ddymuno Nadolig heddychlun a hapus i chi, eich staff a'ch myfyrwyr.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr

Atodiad A

Tudalen flaen y datganiad ystadegol

YSTADEGAU SWYDDOGOL


Cofrestriadau dros dro TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/ Lefel 2 mis Tachwedd ar gyfer Cymru 2019



Uchafbwyntiau

05 Rhagfyr 2019


Ffigur 1: Cofrestriadau Tachwedd 2019



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2017 i 2019 Cymwysterau Cymru; cyn-2017 Ofqual

Cafwyd 21,260 o gofrestrïadau ym mis Tachwedd 2019, i lawr 1,195 (5.3%) o Dachwedd 2018.

Ffigur 2: Cofrestriadau mis Tachwedd yn ôl pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp

Mathemateg - Rhifedd yw'r pwnc sydd â'r nifer fwyaf o gofrestrïadau ym mis Tachwedd o hyd (50.9%), i lawr o 54.2% yn 2018.

Ynghylch y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 a gyflwynwyd i gyrff dyfarnu cyn cyfres Tachwedd 2019. Roedd cofrestriadau TGAU cyfres y mis Tachwedd hwn ar gyfer: Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd, Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith.

Mae'r datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan gyrff dyfarnu, yn gywir hyd at 23 Hydref 2019.

Cynnwys

Cynnwys.....	2
Ystadegau.....	5
Rhestr termau.....	10
Nodiadau cefndir.....	12